# Bywyd Mwy Diogel Ar-lein i Fenywod a Merched

## Galwad am dystiolaeth

Cyhoeddwyd: 9 Medi 2026
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 4 Tachwedd 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Diogelwch menywod a merched ar-lein ... 5
3. Y dystiolaeth rydym ni'n gofyn amdani ... 11

A1. Ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth ... 13

A2. Dalen gyflwyno ar gyfer yr alwad am dystiolaeth ... 16

# 1. Trosolwg

**Mae diogelwch menywod a merched ar-lein yn flaenoriaeth i Ofcom, ac rydym ni eisiau deall sut mae eu profiadau wedi newid ers cyhoeddi ein Canllawiau ym mis Tachwedd 2025.**

Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn gwahodd rhanddeiliaid sydd â diddordeb i roi tystiolaeth a gwybodaeth i Ofcom am brofiadau menywod a merched ar-lein ers cyhoeddi ein Canllawiau ym mis Tachwedd 2025. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn deall pa newidiadau, os o gwbl, y mae menywod a merched wedi'u profi ar-lein yn ystod y cyfnod hwn.

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ac mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu a radio. O dan Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 ("y Ddeddf"), Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer diogelwch ar-lein yn y DU.

1.2 O dan y Ddeddf hon, gwaith Ofcom yw gwneud gwasanaethau ar-lein yn fwy diogel i'r bobl sy'n eu defnyddio nhw. Rydym ni'n gwneud hyn drwy sicrhau bod systemau a phrosesau effeithiol gan gwmnïau technoleg i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, ac i fynd i'r afael â niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched ar-lein.

1.3 Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd Ofcom ganllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein ("darparwyr gwasanaethau") o'r enw: Bywyd mwy diogel ar-lein i Fenywod a Merched ("y Canllawiau"). Mae'r Canllawiau'n nodi sut gall darparwyr gwasanaethau fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, gan gynnwys cam-drin rhywiol ar sail delweddau, cam-drin a thrais rhywiol sy'n dangos casineb at fenywod, stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth, ac ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydgysylltiedig.

1.4 Mae'r Canllawiau'n dod â mesurau perthnasol a amlinellir yn ein Codau Ymarfer ("Codau")[1] a'n canllawiau asesu risg[2] at ei gilydd i helpu darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â dyletswyddau gorfodadwy o dan y Ddeddf, ochr yn ochr â chamau arferion da ychwanegol i gryfhau amddiffyniadau ar gyfer menywod, merched ac eraill y mae'r niwed hwn yn effeithio arnynt. Ers cyhoeddi'r Canllawiau, mae Ofcom wedi parhau i flaenoriaethu diogelwch menywod a merched ar-lein ac i sbarduno gwelliannau (gweler Adran 2 i gael rhagor o fanylion am ein gwaith).

1.5 Mae Ofcom wedi ymrwymo i fonitro sut mae darparwyr gwasanaethau yn dewis diogelu eu defnyddwyr, gan gynnwys menywod a merched, a sut maent yn rhoi'r camau arferion da a nodir yn y Canllawiau ar waith.

1.6 Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn Chwarter 2 2027 i dynnu sylw at yr hyn y mae darparwyr gwasanaethau'n ei wneud – neu ddim yn ei wneud – i greu bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched ers i ni gyhoeddi'r Canllawiau. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at feysydd cynnydd yn ogystal â lle credwn fod angen gwelliannau

[1] Mae ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon a Diogelu Plant yn nodi mesurau a argymhellwyd gan Ofcom i ddarparwyr gwasanaeth gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch a dyletswyddau eraill a bennir o dan y Ddeddf.

[2] Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon ac asesiadau risg plant.

pellach. Bydd hefyd yn rhoi cipolwg ar a yw profiadau menywod a merched o'r niwed ar-lein ar sail rhywedd, sy'n cael sylw yn y Canllawiau, wedi newid ers mis Tachwedd 2025, ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael i ni ar y pryd.

1.7 Mae cwestiynau i randdeiliaid wedi'u rhestru yn Adran 3 o'r ddogfen hon. Drwy'r Alwad hon am Dystiolaeth, rydym ni'n gofyn am dystiolaeth ar ffurf ymchwil, data a gwybodaeth, **ar gyfer y cyfnod o fis Tachwedd 2025 hyd yma**, ar y canlynol:

- tystiolaeth o newidiadau yn nifer, amlder, natur neu ddifrifoldeb y niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n cael sylw yn y Canllawiau,
- tystiolaeth o sut mae profiadau menywod a merched o'r niwed ar-lein hwn ar sail rhywedd wedi newid, a
- thystiolaeth o'r camau a gymerwyd gan wasanaethau, gan gynnwys gweithredu'r camau arfer da neu ddulliau amgen, a'r effaith y mae'r camau hyn wedi'i chael ar brofiadau defnyddwyr.

1.8 Rydym ni'n croesawu ymatebion gan randdeiliaid sydd â diddordeb, yn enwedig gan gymdeithas sifil, ymchwilwyr a'r byd academaidd. Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth ar agor am 8 wythnos a bydd yn cau am 5pm ar 4 Tachwedd 2026.

1.9 Rydym ni hefyd wrthi'n ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau i ddeall sut maen nhw wedi rhoi ein Canllawiau ar waith ers Tachwedd 2025. Er bod gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan gymdeithas sifil, ymchwilwyr a'r byd academaidd mewn ymatebion i'r Alwad hon am Dystiolaeth, rydym ni hefyd yn croesawu cyflwyniadau gan wasanaethau a reoleiddir. Bydd yr holl ymatebion a ddaw i law yn cael eu defnyddio fel sail i'n hadroddiad.

1.10 Dim ond i gwestiynau sy'n berthnasol i'r rhanddeiliaid y mae angen iddyn nhw ymateb. Os oes tystiolaeth eisoes wedi cael ei darparu i Ofcom, nid oes angen ei chyflwyno eto.

1.11 **Gellir cyflwyno ymatebion drwy ein ffurflen ar-lein neu i womenandgirlscfe@ofcom.org.uk. Bydd yr Alwad hon am Dystiolaeth yn dod i ben ar 4 Tachwedd 2026.**

1.12 Bydd ein hadroddiad hefyd yn seiliedig ar ein rhaglen ymchwil ac ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol o niwed ar-lein. Ar ôl i ni ystyried y dystiolaeth o'r holl ffynonellau sydd ar gael, byddwn yn paratoi ein hadroddiad. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan Ofcom.

# 2. Diogelwch menywod a merched ar-lein

2.1 Roedd y dystiolaeth a'r ymchwil a gyfrannodd at ein Canllawiau yn dangos bod menywod a merched yn wynebu risgiau unigryw a difrifol ar-lein. Maent yn fwy tebygol o fod â delweddau personol yn eu dangos, gan gynnwys delweddau rhywioledig yn cael eu rhannu heb eu cydsyniad; cael eu targedu gan aflonyddu cydgysylltiedig; a chael eu targedu gan stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.[3] Mae rhai nodweddion gwasanaethau, gan gynnwys y ffordd y mae cynnwys yn cael ei amlhau ac yn cael gwerth ariannol, hefyd yn gallu gwthio dynion a bechgyn tuag at gynnwys sy'n normaleiddio, yn mawrygu ac yn annog camdriniaeth fisogynistaidd a thrais rhywiol.[4]

2.2 **Felly, mae gwella diogelwch ar-lein menywod a merched yn flaenoriaeth i Ofcom.** Drwy weithredu'r Ddeddf, ein Codau a'n canllawiau ar gyfer gwasanaethau, a'n hymdrechion parhaus i sicrhau cydymffurfiaeth a mesurau diogelu cryfach, rydym ni'n parhau i weithio i fynd i'r afael â'r niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched ar-lein.

## Dyletswyddau ar wasanaethau

2.3 Mae amrywiaeth o niwed ar-lein ar sail rhywedd y gall menywod a merched ei brofi yn dod o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgarwch a chynnwys anghyfreithlon, yn ogystal â chynnwys sy'n niweidiol i blant o dan y Ddeddf.

2.4 Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion clir ar ddarparwyr gwasanaethau[5] i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon, sy'n cynnwys niwed ar-lein ar sail rhywedd fel camddefnyddio delweddau personol, stelcio a rheoli neu ymddygiad gorfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau yn diogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt, gan gynnwys agweddau penodol ar niwed ar sail rhywedd ar-lein, megis cam-drin a chynnwys casineb a chynnwys treisgar, ac yn eu hatal rhag cael gafael ar gynnwys pornograffig.

2.5 Mae Ofcom wedi cyhoeddi Codau cynnwys anghyfreithlon a Chanllawiau Asesu Risg cynnwys anghyfreithlon a Chodau Amddiffyn Plant a Chanllawiau Asesu Risg Plant, sy'n nodi sut rydym ni'n disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon ac amddiffyn plant.

---

[3] Mae Pennod 2 Bywyd Mwy Diogel Ar-lein i Fenywod a Merched yn rhoi trosolwg o ffynonellau tystiolaeth allweddol ar niwed i fenywod a merched ar-lein. I gael trosolwg manylach o sut mae niwed yn amlygu ei hun ar-lein, gan gynnwys risgiau i fenywod a merched, gweler ein Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon, a'n Cofrestr Risgiau Plant.

[4] **Error! Bookmark not defined.Error! Bookmark not defined.** Cymorth i Fenywod, 2023. Influencers and Attitudes: How will the next generation understand domestic abuse?. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Vera-Gray, F., McGlynn, C., Kureshi, I., Butterby, K., 2021. Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography, The British Journal of Criminology, 61 (5). [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Vodafone, 2024. AI 'Aggro-rithms': young boys are served harmful content within 60 seconds of being online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[5] Diffinnir gwasanaethau o'r fath o dan Ran 3 y Ddeddf ac maent yn cynnwys gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.

2.6 Mae Adran 54 o’r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn llunio canllawiau pwrpasol ar ddiogelwch menywod a merched ar-lein. Fe wnaethom ni gyhoeddi ein Canllawiau ym mis Tachwedd 2025. Datblygwyd y Canllawiau gyda gwybodaeth gan oroeswyr a dioddefwyr, arbenigwyr diogelwch, a grwpiau cymdeithas sifil, yn dilyn proses ymgynghori helaeth. Roedd y Canllawiau’n ceisio adlewyrchu profiadau go iawn menywod a merched a rhoi llais i’w galwadau am well amddiffyniadau ar-lein.

2.7 Mae ein Canllawiau’n darparu camau ymarferol y gall ac y dylai darparwyr gwasanaethau eu cymryd i ddiogelu menywod a merched yn well ar-lein. Mae’n nodi naw cam y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd i fynd i’r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd, ar draws pob cam o ddylunio a gweithredu eu gwasanaeth. Mae’r Canllawiau’n berthnasol i’r holl wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gan gynnwys gwefannau cwrdd â chariad, cyfryngau cymdeithasol a gemau.[6]

2.8 Mae’r Canllawiau’n canolbwyntio ar bedwar math o niwed sy'n gorgyffwrdd ac sy’n effeithio’n anghymesur ar fenywod a merched: cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol, stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth, a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau. Mae diffiniadau o’r niwed hwn wedi’u nodi yn y Canllawiau, ochr yn ochr â’r naw cam gweithredu ar gyfer mynd i’r afael â nhw, wedi’u hamlinellu isod.

## Niwed ar sail rhywedd ar-lein

2.9 Mae Canllawiau Ofcom yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â’r pedwar categori canlynol o niwed ar-lein ar sail rhywedd, y mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched: Rydym ni'n cyfeirio at y rhain gyda’i gilydd fel **niwed ar-lein ar sail rhywedd**.

**Tabl 1: Niwed ar-lein ar sail rhywedd**

| Niwed Ar-lein ar Sail Rhywedd | Diffiniad |
|---|---|
| **Cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol** | Mae hyn yn disgrifio cylchredeg – neu hyrwyddo – cynnwys camdriniol, cas a threisgar sy’n mynd ati’n weithredol i annog neu gadarnhau syniadau neu ymddygiadau sy’n gysylltiedig â chasineb at fenywod, gan gynnwys drwy normaleiddio trais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys deunydd anghyfreithlon (e.e. bygythiadau a cham-drin anghyfreithlon) a chynnwys sy'n niweidiol i blant (e.e. cynnwys camdriniol, cas a threisgar), sy'n aml yn cael ei ehangu'n algorithmig a'i dargedu at ddynion a bechgyn ifanc. |

[6] Nid yw’r Canllawiau’n berthnasol i wasanaethau Rhan 5 (darparwyr sy’n cyhoeddi neu’n arddangos cynnwys pornograffig eu hunain, heb unrhyw ryngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr na chynnwys chwilio).

| Niwed Ar-lein ar Sail Rhywedd | Diffiniad |
|---|---|
| **Ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol** | Mae hyn yn disgrifio achosion lle mae grwpiau o bobl yn cydlynu i dargedu menyw neu ferch benodol, neu grwpiau o fenywod a merched gyda chamdriniaeth, casineb a bygythiadau treisgar. Yn yr un modd â thrais rhywiol a cham-drin misogynistaidd, gall hyn gynnwys deunydd anghyfreithlon (e.e. bygythiadau a chamddefnyddio delweddau personol) a chynnwys sy'n niweidiol i blant (e.e. cynnwys treisgar, cas a chamdriniol). Er bod ymosodiadau torfol yn gallu digwydd i unrhyw ddefnyddiwr, mae'n aml yn targedu menywod mewn bywyd cyhoeddus, fel newyddiadurwyr a gwleidyddion. |
| **Stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth** | Mae hyn yn disgrifio troseddau sy'n ymwneud â defnyddio technoleg ar gyfer (a) stelcio; neu (b) ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol yng nghyd-destun perthynas agos neu deuluol. |
| **Cam-drin rhywiol ar sail delweddau** | Mae hyn yn cyfeirio at droseddau (a) camddefnyddio delweddau personol (rhannu delweddau personol heb ganiatâd) a (b) seiberfflachio (anfon delweddau anweddus at rywun heb ei ganiatâd). Rydym ni hefyd yn ymdrin â delweddau anweddus sydd wedi cael eu cynhyrchu gan yr unigolyn.[7] |

## Meysydd gweithredu ar gyfer gwasanaethau

2.10 Mae ein Canllawiau'n mabwysiadu dull diogelwch o'r cychwyn. Gan ddefnyddio'r dull hwn, mae ein Canllawiau'n nodi naw cam y gall darparwyr eu cymryd i fynd i'r afael â her niwed ar-lein ar sail rhywedd ar draws pob cam o weithredu a dylunio eu gwasanaeth, fel a ganlyn:

[7] Mae delweddau anweddus wedi'u creu gan yr unigolyn (SGII) yn cyfeirio at ddelweddau rhywiol sy'n cael eu creu gan y plentyn ei hun. Mae pob SGII yn cael ei ddosbarthu fel deunydd cam-drin plant yn rhywiol ac felly maent yn anghyfreithlon.

**Ffigur 1: Meysydd Gweithredu**




2.11 Mae'r Canllawiau'n dwyn ynghyd gamau sylfaenol ac arferion da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd. Mae'r **camau sylfaenol** yn dwyn ynghyd y mesurau a nodir yn ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon presennol a'r Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon, Codau Amddiffyn Plant a'r Canllawiau ar Gynnwys Niweidiol i Blant ac Adroddiadau Tryloywder a allai helpu i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd.

2.12 Mae'r **camau arferion da** ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau yn nodi ffyrdd ymarferol y gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach i ddangos ymrwymiad i ymateb i niwed ar-lein ar sail rhywedd. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion, adnoddau a phrosesau y gall darparwyr gwasanaethau eu mabwysiadu i sicrhau newidiadau uchelgeisiol ac ystyrlon tuag at fywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched ac eraill y mae'r niwed hwn yn effeithio arnynt.

2.13 Rydym ni'n cydnabod yn y Canllawiau na fydd angen i bob darparwr gwasanaeth gyflwyno'r holl gamau arferion da – nac y byddant yn gallu gwneud hynny – ac y bydd rhai yn

berthnasol i rai gwasanaethau yn unig, oherwydd maint eu sylfaen defnyddwyr, lefel risg, demograffeg eu defnyddwyr, dyluniad y gwasanaeth neu'r model busnes.

## Beth rydym ni'n ei wneud nesaf

2.14 Rydym ni nawr yn ceisio deall sut mae'r diwydiant wedi ymateb i'n Canllawiau a pha newidiadau mae menywod a merched wedi'u profi ar-lein ers iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2025. Bryd hynny, roeddem wedi galw ar ddarparwyr gwasanaethau i gymryd y camau gweithredu a argymhellwyd yn ein Canllawiau.

2.15 Rydym ni nawr yn ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau i gael gwybod sut maen nhw wedi ymgysylltu â'r Canllawiau a'u rhoi ar waith. Yn ogystal â'r Alwad hon am Dystiolaeth, byddwn hefyd yn parhau i fonitro profiad menywod a merched drwy ein rhaglen ymchwil, a'n hymgysylltiad â'r rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol (gan gynnwys pobl ifanc).

2.16 Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn Chwarter 2 2027, a bydd hwnnw'n rhoi crynodeb o'r cynnydd a welwyd gennym hyd yma, ac yn taflu goleuni ar ble y gellid gwneud mwy i ddiogelu menywod a merched. [8].[9]

## Ein rhaglen ehangach

2.17 Rydym ni wedi gweithio i gadw i fyny â newidiadau mewn deddfwriaeth diogelwch ar-lein. Rydym ni wedi diweddaru ein Canllawiau Asesu Risg, Codau Cynnwys Anghyfreithlon a dogfennau rheoleiddiol eraill[10] i adlewyrchu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi creu seiberfflachio yn drosedd flaenoriaethol o dan y Ddeddf[11], sy'n mynnu bod gwasanaethau'n mynd ati'n rhagweithiol i asesu a lliniaru seiberfflachio fel niwed anghyfreithlon penodol.

2.18 O ystyried yr angen brys am well mesurau diogelu ar-lein i fenywod a merched, fe wnaethom ni hefyd gyflymu ein penderfyniad i argymell defnyddio technoleg 'cyfateb hash'' i ganfod achosion o gamddefnyddio delweddau personol a lleihau ei ledaeniad ar-lein.

2.19 Ar ôl i'r mesur ddod i rym, byddwn yn asesu cydymffurfiaeth darparwyr gwasanaethau â'r mesur, gan gymryd camau gorfodi lle bo angen. Mae hyn yn adeiladu ar ymchwiliadau a agorwyd gan Ofcom i ddelweddau rhywioledig, cam-drin rhywiol ar sail delweddau a chamau gorfodi a gymerwyd yn erbyn un wefan noethni.

2.20 Rydym hefyd yn gweithio i roi dyletswyddau newydd ar waith sy'n deillio o Ddeddf Troseddu a Phlismona 2026, gan gynnwys dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau i dynnu delweddau personol heb gydsyniad i lawr o fewn 48 awr a rhoi gwybod i gofrestrfa

---

[9] Fel y nodwyd yn ein datganiad pan gafodd y Canllawiau eu cyhoeddi, mae gan Ofcom bŵer eang o dan adran 164 o'r Ddeddf i lunio a chyhoeddi adroddiadau am faterion diogelwch ar-lein. Hefyd, yn unol ag adran 1(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rydym ni o'r farn fod paratoi a chyhoeddi adroddiad o'r fath yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau diogelwch ar-lein Ofcom neu'n ffafriol i hynny.

[10] Dyma'r Gofrestr Risgiau, Canllawiau ar Farnau ynghylch Cynnwys Anghyfreithlon a Chanllawiau ar Gadw ac Adolygu Cofnodion.

[11] Ym mis Rhagfyr 2025, ychwanegodd y Llywodraeth seiber-fflachio at y rhestr o droseddau blaenoriaeth yn y Ddeddf.

ganolog,[12] a gafodd Gydsyniad Brenhinol ddiwedd mis Ebrill. Byddwn yn diweddaru ein map polisi erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo, ac rydym ni'n anelu at ymgynghori ar y ddyletswydd newydd ar wasanaethau i dynnu delweddau personol heb gydsyniad i lawr o fewn 48 awr, erbyn diwedd 2026.

[12] Gweler Adran 100 o Ddeddf Troseddu a Phlismona 2026, sy'n diwygio adrannau 10, 21, 27 a 32 o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, yn ogystal â mewnosod adrannau 20A a 31A newydd a Deddf Troseddu a Phlismona 2026: taflen ffeithiau gyffredinol sy'n nodi rhagor o fanylion am y troseddau a'r dyletswyddau.

# 3. Y dystiolaeth rydym ni'n gofyn amdani

3.1 Defnyddiwch y ffurflen we hon i ymateb.

3.2 Rydym ni'n gofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid sydd â diddordeb ar y cwestiynau a nodir yn y ddogfen hon. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan gymdeithas sifil, ymchwilwyr a'r byd academaidd, er ein bod yn croesawu ymatebion gan unrhyw bartïon sydd â diddordeb. Rydym ni nawr yn ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau i ddeall sut maen nhw wedi rhoi'r Canllawiau ar waith.

3.3 Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth neu wybodaeth sydd wedi cael eu casglu ers mis Tachwedd 2025 ac a allai ein helpu i ddeall:

a) sut gallai'r camau a gymerwyd gan ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys gweithredu'r Canllawiau, fod wedi effeithio ar brofiadau menywod a merched ar-lein, a
b) sut gallai'r niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n cael sylw yn y Canllawiau fod wedi newid.

3.4 Nid oes rhaid i ymatebwyr ymateb i bob cwestiwn neu bwynt bwled. Rydym ni'n croesawu tystiolaeth sy'n mynd i'r afael ag unrhyw un o'r meysydd sy'n cael sylw yn yr Alwad hon am Dystiolaeth.

3.5 Gallai tystiolaeth gynnwys, er enghraifft, canfyddiadau ymchwiliadau perthnasol, adroddiadau tryloywder neu bapurau ymchwil. Os ydych wedi casglu data meintiol, nodwch hyn yn eich ymateb. Dylech gynnwys hyperddolen weithredol at unrhyw dystiolaeth rydych yn ei darparu.

## Cwestiynau

3.6 I'ch atgoffa, dyma'r niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n cael sylw yn y Canllawiau:

- Cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol
- Ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol
- Stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth
- Cam-drin rhywiol ar sail delweddau

### Pa gamau y mae gwasanaethau'n eu cymryd?

**Cwestiwn 1: Pa gamau y mae darparwyr gwasanaethau wedi'u cymryd ers cyhoeddi'r Canllawiau ym mis Tachwedd 2025 i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd?**

Pan fo'n bosibl, cyfeiriwch at y camau arfer dda o'r Canllawiau yn eich ymateb. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- rhoi'r camau arferion da a nodir yn y Canllawiau ar waith,
- camau amgen eraill a fabwysiedir gan wasanaethau, ac
- effeithiolrwydd unrhyw gamau gweithredu, gan gynnwys:
  - tystiolaeth fod ymyriadau wedi lleihau niwed neu wedi gwella profiadau defnyddwyr, a
  - thystiolaeth mai effaith gyfyngedig y mae ymyriadau wedi'i chael.

## Beth sy’n wahanol i fenywod a merched ar-lein?

**Cwestiwn 2: Pa dystiolaeth sydd ar gael o brofiadau menywod a merched o’r niwed ar-lein ar sail rhywedd a nodwyd yn y Canllawiau ers eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2025?**

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth yn ymwneud â’r canlynol:

- newidiadau (cadarnhaol a negyddol) ym mhrofiadau menywod a merched o’r niwed hwn a’i effaith,
- newidiadau yn y ffordd y mae menywod a merched yn ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein,
- newidiadau yn y ffordd y mae defnyddwyr eraill yn ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein, a allai gynyddu neu leihau profiadau menywod a merched o niwed ar-lein ar sail rhywedd
- gwahaniaethau mewn profiadau ar draws gwasanaethau neu fathau o wasanaethau, ac
- a yw’n ymddangos bod unrhyw newidiadau’n gysylltiedig â chamau a gymerwyd gan ddarparwyr gwasanaethau.

## A yw niwed ar-lein yn newid i fenywod a merched?

**Cwestiwn 3: Pa dystiolaeth sydd ar gael ar y niwed ar-lein ar sail rhywedd a nodwyd yn y Canllawiau ers eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2025?**

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth yn ymwneud â’r canlynol:

- niferoedd, achosion, natur neu ddifrifoldeb y niwed sy’n cael sylw yn y Canllawiau, gan gynnwys sut gallai’r rhain fod wedi newid (os o gwbl) ers cyhoeddi’r Canllawiau, a’r
- gwasanaethau neu’r mathau o wasanaethau lle mae’r niwed hwn yn digwydd.

# A1. Ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth

## Sut i ymateb

A1.1 Cyflwynwch eich ymateb ac unrhyw dystiolaeth ategol erbyn **5pm ar 4 Tachwedd 2026**.

A1.2 Gallwch chi ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen we hon.

A1.3 Cewch hefyd ymateb dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.4 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall, a fyddech chi cystal â'i uwchlwytho ar waelod y ffurflen we. Neu, anfonwch ef ar e-bost i: **womenandgirlscfe@ofcom.org.uk**, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen flaen.

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i uwchlwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr alwad am dystiolaeth; mae'n iawn rhoi ymateb byr ar un pwynt yn unig. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Nodwch yn glir ar y dudalen deitl neu'r e-bost eglurhaol a yw eich ymateb yn cynnwys deunydd a allai beri gofid. Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr alwad am dystiolaeth, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i **womenandgirlscfe@ofcom.org.uk**

## Cyfrinachedd

A1.10 Er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddiol da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig fod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fe fyddwn ni fel rheol yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom ar ôl cyfnod yr alwad am dystiolaeth.

A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu, naill ai drwy beidio â chyhoeddi'r ymateb o gwbl, neu drwy gyhoeddi'r rhannau anghyfrinachol yn unig. Weithiau, efallai y byddwn yn credu ei bod yn bwysig datgelu rhannau o ymateb sydd wedi'i farcio'n gyfrinachol, a hynny am resymau tryloywder, ond byddwn yn ymgynghori â chi cyn gwneud hynny. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i gyhoeddi gwybodaeth neu ei datgelu yn y llys, ond unwaith eto, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

A1.13 Hyd yn oed os nad yw eich ymateb wedi'i farcio'n gyfrinachol, efallai y byddwn yn dal i benderfynu peidio â chyhoeddi'r ymateb cyfan neu ran ohono mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, os oes gennym bryderon am yr effaith ar eich preifatrwydd neu breifatrwydd pobl eraill, y gallai cynnwys yr ymateb hwyluso cyflawni trosedd, neu am natur sensitif y cynnwys yn fwy cyffredinol. Os byddwn yn penderfynu peidio â chyhoeddi eich ymateb cyfan neu ran ohono, byddwn yn dal i'w ystyried wrth edrych ar y mater.

A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio. Edrychwch hefyd ar ein Datganiad Preifatrwydd.

## Y camau nesaf

A1.16 Os ydych chi'n dymuno, gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau i gael gwybod am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i alwad am dystiolaeth.

A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym ni'n rheoli ein galwadau am dystiolaeth, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Dalen gyflwyno ar gyfer galwad am dystiolaeth

## Manylion sylfaenol

Teitl yr alwad am dystiolaeth:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Yr ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i alwad am dystiolaeth y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Nod Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer yr alwad am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben. Os nad yw eich ymateb yn un cyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr Alwad am Dystiolaeth wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)